tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# Maniffesto
## 2026

Hawl i gartref da   Tai i Bawb   Cydraddoldeb yn greiddiol

# Amdanom ni

Mae Tai Pawb yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru. Rydyn ni'n dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da, un sy'n ddiogel, yn addas ac yn fforddiadwy iddyn nhw. Mae gennym aelodau a phartneriaethau ar draws pob sector sy'n gysylltiedig â thai, ond rydyn ni'n arbenigo mewn cymorth a chyngor i gymdeithasau tai, awdurdodau lleol, a sefydliadau cymorth tai.

Ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026, rydyn ni'n galw ar bleidiau gwleidyddol ac arweinwyr Llywodraeth y dyfodol i ymrwymo i gyfres o ofynion sy'n seiliedig ar ymchwil gadarn, ymgysylltu ystyrlon, a phrofiadau bywyd pobl amrywiol sydd wedi wynebu'r argyfwng tai drostyn nhw eu hunain.

## Helo!


www.taipawb.org

info@taipawb.org

029 2105 7957

@taipawb

@taipawb1


tai pawb

# Hawl i gartref da

01

**Mynd i'r afael â thlodi a gwella canlyniadau iechyd drwy basio cyfraith sy'n sicrhau bod gan bawb yng Nghymru hawl gyfreithiol i gartref da.**

Mae hawl i dai yn ateb 'Cymreig' i'n hargyfwng tai – gellir ei olrhain ganrifoedd yn ôl yn ein  hanes, yn debyg iawn i sylfeini'r GIG. Credwn fod angen i dai gael 'moment fawr' sy'n cyfateb i greu'r GIG ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ac rydyn ni eisiau gweld deddfwriaeth o fewn tymor nesaf y Senedd sy'n ymgorffori hawl y Cenhedloedd Unedig i dai digonol.

## Pam?

Rydyn ni'n credu y dylai tai fod yn hawl sylfaenol, ac mae 77% o'r bobl a arolygwyd yn cytuno a mwyafrif amlwg o Brif Weithredwyr Cymdeithasau Tai yng Nghymru. Ond mae tai gwael hefyd yn costio arian, gan gynnwys £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG a £1 biliwn i'r economi yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, gall hawl i dai digonol arwain at arbedion o £5 biliwn dros gyfnod o 30 mlynedd, gan gynnwys i'r GIG a llywodraeth leol, tra'n rhoi hwb i'r economi. Bydd y newid hwn yn dod â thai yn ôl i fod yn genhadaeth sylfaenol y llywodraeth, gan hybu cyllid a chyflenwad – wrth fynd i'r afael â thlodi a gwella bywydau. Gall Cymru arwain y ffordd.

# Tai i Bawb

**Mwy o gyllid i ddarparu cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol, gan gynnwys tai hygyrch.**

Gall mwy o dai cymdeithasol helpu i fynd i'r afael â'r gwariant costus ar lety dros dro, iechyd, a rhenti preifat anfforddiadwy, gan roi'r cyfle gorau i bobl fyw eu bywydau. Er bod adeiladu'n gyflym yn angenrheidiol i ddarparu cartrefi i bawb, mae angen i ni ganolbwyntio o hyd ar y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o dlodi ac iechyd gwael, gan gynnwys pobl anabl, pobl ifanc, teuluoedd rhiant sengl a rhai pobl o leiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn golygu:

- Mwy o dai hygyrch
- Llety dros dro sy'n diwallu ystod o anghenion, gan gynnwys hygyrchedd
- Mwy o gymorth i helpu pobl gynnal eu cartrefi
- Sicrhau bod ein tai cymdeithasol o ansawdd da heb unrhyw leithder a llwydni
- Sicrhau nad yw datgarboneiddio cartrefi presennol yn rhoi cymunedau sy'n cael eu
- Tan-gynrychioli o dan anfantais a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

02

## Pam?

Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai. Rhaid i unrhyw ateb ystyrlon gynnwys datblygu mwy o dai cymdeithasol sy'n diwallu anghenion poblogaethau amrywiol. Mae ymchwil Shelter Cymru yn awgrymu bod dros 90,000 o aelwydydd ar restrau aros cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod tai yn anfforddiadwy i lawer ac yn gwthio pobl tuag at dlodi. Mae gennym 'argyfwng tai' yn barod o ran cartrefi hygyrch, tra bod y boblogaeth yn heneiddio a chyfran y bobl anabl yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Mae llawer gormod o'n cartrefi cymdeithasol mewn perygl o leithder a llwydni; ac effaith hynny ar fywydau a'r gwasanaeth iechyd.

# Cydraddoleb yn greiddiol

**Cadarnhau cydraddoldeb, cynhwysiant a dysgu o brofiadau bywyd fel sylfeini unrhyw bolisi tai teg.**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi gwneud ymrwymiadau sy'n arwain y ffordd ar draws y byd, o ran anabledd, pobl hŷn a chynlluniau gweithredu LHDTC+ a gwrth-hiliaeth. Er mwyn sicrhau y gall Cymru fod yr hyn y bu erioed, sef cymdeithas groesawgar a blaengar sy'n gofalu am bawb, rhaid i hyn barhau.

03

## Pam?

Os ydym am fynd i'r afael â thlodi, iechyd gwael ac anghydraddoldeb, mae angen i ni barhau i wrando a dysgu wrth ein cymunedau. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl hŷn eisoes yn fwy tebygol o fyw mewn amodau tai gwaeth, tra bod poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod angen i ni gael mwy o gartrefi hygyrch y gellir eu haddasu. Rydyn ni'n gwybod y daw 1 o bob 4 person ifanc sy'n wynebu digartrefedd o'r gymuned LHDTC+ tra bod rhai cymunedau du ac ethnig leiafrifol yn wynebu risg uwch o dlodi, digartrefedd, ac amodau tai gwael. Gyda 11% o allyriadau carbon yng Nghymru yn dod o'n tai, rydyn ni eisoes yn datgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol, a bydd hyn yn parhau. Mae angen i ni barhau i roi profiadau pobl wrth wraidd y broses o greu polisïau ar draws yr holl feysydd hyn, i gyflawni'r Gymru rydyn ni ei heisiau, gyda'n gilydd.

# Effaith

**Gwneud gwahaniaeth drwy weithio mewn partneriaeth a rhoi mwy o sylw i brofiadau pobl**

Roedd Tai Pawb yn 20 oed yn 2025. Heb os, rydyn ni'n elusen Gymreig. Dros dymor presennol y Senedd, mae ein gwaith wedi cyfrannu at y newidiadau canlynol, gan wella bywydau ledled Cymru.

100+

800+

30+

75%+

350+

tai pawb

2021-
2025

Dros y
5 mylnedd
diwethaf o
tai pawb

SUT Y GWNAETHOM
SIAPIO'R NEWID

SUT Y GWNAETHOM
Y NEWID

SUT MAI NI OEDD
Y NEWID

# SUT Y GWNAETHOM SIAPIO'R NEWID

**Ymgyrchu dros yr Hawl i Gartref Digonol**

Fe wnaethom adeiladu momentwm cryf ar gyfer ymgorffori'r hawl i gartrefo digonol, siapio Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol. Ar sail tystiolaeth arbenigol a phrofiad go iawn, fe wnaethom ddangos bod yr hawl hon yn hanfodol ac yn gyraeddadwy. Mae dros 75% o Brif Weithredwyr Cymdeithasau Tai bellach yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon.

**Siapio Polisi Cenedlaethol**

Fe wnaethom gyfrannu at fwy na 100 o newidiadau polisi gan gynnwys gofynion lloriau newydd, elfennau anabledd a chyflawni datgarboneiddio yn deg yn Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, Cofrestri Tai Hygyrch yn y Bil Digartrefedd newydd, a hyfforddiant troseddau casineb i landlordiaid preifat i ymateb i ARWAP. Buom yn eistedd wrth fyrddau gwneud penderfyniadau allweddol, yn cynnwys y Bwrdd Cynghori ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd, a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a'r Gynghrair Hawliau Dynol.

**Llywio Gwrth-Hiliaeth ym maes Tai**

Roedd 30 a mwy o sefydliadau wedi addo gweithredu yn ein hymgyrch *Gwneud Nid Dweud*, a helpodd amrywiaeth byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i godi o 2% i 9%. Fe wnaethom gyflogi Rheolwr Gwrth-Hiliaeth, llunio adnoddau ymarferol a darparu hyfforddiant i gydweithwyr, gan helpu i siapio diwylliannau a gwasanaethau mwy cynhwysol ar draws y sector.

**Tystiolaeth sy'n Arwain Newid**

Cafodd ein hymchwil ar ddigartrefedd, profiadau cartrefi lleiafrifoedd ethnig, gwrth-hiliaeth, a lloriau tai cymdeithasol, effaith wirioneddol, gan siapio polisi a chanllawiau cenedlaethol.

tai pawb

# SUT Y GWNAETHOM Y NEWID

## Trawsnewid Ymarfer

Rydym wedi darparu dros 350 o sesiynau hyfforddi ac ymgynghori, ac wedi lansio hwb e-ddysgu sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n benodol i dai yng Nghymru yn unig. Roedd ein hyfforddiant yn cynnwys niwroamrywiaeth, rhagfarn ddiarwybod, cymhwysedd diwylliannol, troseddau casineb, a llawer mwy.

## Tyfu ac Ymgysylltu â'r Sector

Mae ein haelodaeth wedi tyfu i fod yn 80 a mwy o sefydliadau. Drwy ddigwyddiadau, rhwydweithiau a mentrau newydd fel Cyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rydym wedi ymgysylltu â dros 6,000 o bobl, ac mae ein cynadleddau blynyddol poblogaidd yn parhau i ysbrydoli ac uno'r sector.

## Llywio Safonau'r Sector

Cofrestrodd 10 sefydliad ar gyfer ein Gwobr Ansawdd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n parhau i godi'r safon ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym maes tai. Dywedodd dros 78% o staff eu bod wedi gweld gwelliannau o fewn llai na blwyddyn. Fe wnaethom hefyd lansio ein rhaglen gyffrous ar gyfer Arweinwyr Ansawdd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

tai pawb

# *SUT MAI NI OEDD Y NEWID*

## Arwain drwy Esiampl

Fe wnaethom gryfhau ein hymrwymiad i degwch drwy lansio ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a rhannu data amrywiaeth staff a byrddau. Fe wnaethom flaenoriaethu llesiant staff drwy gyflwyno wythnos waith 4 diwrnod a chyfleoedd gwirfoddoli.

## Profiad go iawn yn y Ganolfan

Fe wnaeth dros 800 o bobl â phrofiad go iawn siapio ein gwaith, drwy gyd-gynhyrchu ymchwil i ymgysylltu â thenantiaid a gwirfoddolwyr yn y sector rhentu preifat.

**Mae Tai Pawb yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y pum mlynedd diwethaf. Gyda chymorth ein haelodau, ein partneriaid a'n cefnogwyr, rydym wedi gwneud cynnydd go iawn.**

**Ond mae mwy i ddod. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru.**

tai pawb